

# **Sesiwn Gwrandawriad 7**

## **MWYNAU A GWASTRAFF**

**2.00 yp, Dydd Mercher 14 Medi 2016**

**Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd  
Gwynedd a Môn**



**CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL**

Cynhyrchwyd y Datganiad hwn gan Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd i nodi eu hymateb i'r materion a'r pynciau a godwyd gan yr Arolygydd ar gyfer y Gwrandawriad am yr Economi – Cyflogaeth, Manwerthu a Thwristiaeth yng Nghynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn.

Mae'r Datganiad hwn yn ymwneud ag elfennau o'r Cynllun a godwyd gan yr Arolygydd fel materion i'w trafod. Lle bo'n briodol mae'r Datganiad yn edrych ar ac yn croesgyfeirio at y prif ffynonellau o wybodaeth a ddefnyddiwyd i baratoi'r Cynllun megis canlyniadau ymgynghoriad cyhoeddus, yr Asesiad Cynaliadwyedd, y dogfennau cefndir a Phapurau Testun ategol. Rhoddir rhifau cyfeirnod y dogfennau lle y bo'n briodol.

At ddibenion eglurder o fewn y datganiad hwn mae unrhyw Newidiadau Materion sy'n Codi i'r Cynllun Adnau a/neu Newid â Ffocws i'r Cynllun, wedi'i ddangos mewn print trwm **Coch** ac wedi'i thanlinellu. Dangosir unrhyw Newid â Ffocws i'r Cynllun Adnau mewn print **Trwm** wedi'i danlinellu.

## Agenda Materion a Phynciau

### 1. Cyflwyniad

### 2. Materion Gweithredol

#### 3.0 A yw'r Cynllun yn sicrhau y bydd y Siroedd yn cyfrannu'n briodol at fodloni'r galw rhanbarthol am fwynau yn ystod cyfnod y Cynllun?

3.1 Ydi. Mae drafft adneuo'r CDLI yn datgan fod cronfa fawr o bron bob un math o graig yn ardal y Cynllun, gan gynnwys llechi, carreg galch, glo, nifer o gerrig igneaidd a thywodfaen gan gynnwys dyddodion tywod a graean. Mae cronfeydd wrth gefn sylweddol o lechi yng Ngwynedd ac mae'r Cyngor yn ystyried fod y fframwaith bolisi yn darparu strategaeth briodol i sicrhau cyflenwad parhaus o fwynau drwy gydol cyfnod y cynllun.

3.2 Tra bod paragraff 7.5.61 yn cyfeirio at argymhellion y Datganiad Technegol Rhanbarthol i ddarparu dyraniadau ar gyfer tywod a graean yng Ngwynedd, dylai'r un paragraff gynnwys cyfeiriad at ddyraniadau ar gyfer Cerrig Mâl ym Môn i adlewyrchu darpariaethau Polisi Mwyn 3. Nodwch y dylid cywiro'r paragraff (fersiwn Saesneg yn unig) i bennu 1.31 miliwn tunnell ar gyfer cerrig mâl. Cynnigir fod y newidiadau a awgrymir i'r Cynllun yn cael eu cyflwyno fel Newidiadau Materion sy'n Codi ac i ddarllen fel a chanlyn:-

"7.5.61 Ceir cronfa fawr o bron bob un math o graig yn ardal y Cynllun, gan gynnwys llechi, carreg galch, glo, nifer o gerrig igneaidd a thywodfaen gan gynnwys dyddodion tywod a graean. Mae'r Datganiad Technegol Rhanbarthol yn argymhell y dylai'r Cynllun wneud dyraniadau ar gyfer adnoddau tywod a graean, ond yn unol â pharagraff 13 PCMC dylid diogelu adnoddau mwynau eraill gan gynnwys PSV Dolerite, craig igneaidd, calchfaen, cerrig mâl a glo."

"7.5.67 The above policy aims to facilitate the additional provision of sand and gravel, and crushed rock reserves to meet the identified shortfalls highlighted by the First Review of the North Wales Regional Technical Statement. By comparing existing land banks (December 2010) and the apportionment for sand and gravel and crushed rock Tables 5.2 and 5.3 of the First Review of the North Wales Regional Technical Statement highlights a 3.7 million tonne shortfall for sand and gravel in Gwynedd and a ~~131~~ 1.31 million tone shortfall of crushed rock in Anglesey." (Nodir fod y newid yn berthnasol i'r fersiwn Saesneg yn unig).

#### 4. A fydd y cynllun yn darparu banc tir 7 mlynedd o dywod a graean a banc tir 10 mlynedd o agregau cerrig mâl yn ystod cyfnod y Cynllun?

4.1 Bydd. Mae adolygiad o'r Datganiad Technegol Rhanbarthol Gogledd Cymru (DA024) wedi cael ei gymeradwyo gan Llywodraeth Cymru a phob un o'r cynghorau lleol yng Nghymru ym mis Awst 2014 ac mae'n nodi ar sut y bydd y galw am agregau'n cael eu diwallu yn y rhanbarth am gyfnod o 25 mlynedd sy'n dod i ben yn 2036, gan ddarparu sail strategol ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol yn y rhanbarth.

4.2 Mae cyfanswm y dosraniad o dywod a graean ar gyfer Gwynedd, fel y'u cyfrifir yn Adolygiad Cyntaf y Datganiad Technegol Rhanbarthol Gogledd Cymru, yw 4.4 miliwn o dunelli. Mae hyn yn cymharu â banc tir presennol o 0.7 miliwn tunnell gan adael diffyg o 3.7 miliwn o dunelli. Gall 700,000 tunnell

o gronfeydd wrth gefn segur o dywod a graean gael ei wrthbwysu yn erbyn yr argymhelliad dosrannu o 3.7 miliwn tunnell.

- 4.3 Mae cyfanswm y dosraniadau ar gyfer Ynys Môn, fel y'i cyfrifir yn Nhabl 5.1 o'r brif ddogfen, dros gyfnod o 25 mlynedd a gwmpesir gan yr Adolygiad Cyntaf yn sero ar gyfer tywod a graean enillwyd o'r tir a 7 miliwn o dunelli ar gyfer cerrig mâl. Mae'r rhain yn cymharu â banciau tir presennol o sero am dywod a graean a 5.6 miliwn o dunelli ar gyfer gerrig mâl (hyd at 31 Rhagfyr 2010). Er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg cyflenwad cerrig mâl, bydd angen nodi dyraniadau newydd ar gyfer gerrig mâl yn y CDLI at gyfanswm o leiaf 1.3 miliwn o dunelli.

## **5. A yw'r Cynllun yn ddigon cefnogol o gynigion ar gyfer echdynnu mwynau ac yn ddigon amddiffynnol o'r ardaloedd diogelu mwynau?**

- 5.1 Mae'r Cynllun yn ystyried fod Polisi Mwynau Strategol PS19 a pholisïau mwynau penodol y CDLI ar y Cyd yn darparu'r fframwaith i gyflawni prif amcan ar gyfer cynllunio am fwynau i sicrhau fod y cyflenwad yn cael ei reoli mewn modd cynaliadwy er mwyn cael y cydbwysedd gorau rhwng yr ystyriaethau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol tra'n gwneud yn siŵr bod unrhyw ardrwiadau echdyniad yn cael ei gadw i lefel sy'n osgoi niwed amlwg i fuddiannau amgylcheddol a mwynderol.
- 5.2 Mae Polisi Mwyn 1 yn nodi Ardaloedd Diogelu Mwynau ar y Map Cynigion i sicrhau fod adnoddau mwynol adnabyddus yn cael eu diogelu ar gyfer y dyfodol gan sefydliad neu ymlediad datblygiad sydd ddim ynghlwm â mwynau a fuasai fel arall yn sterileiddio neu'n llesteirio eu cloddio. Bydd cynigion ar gyfer datblygiad sydd ddim ynghlwm â mwynau yn cael ei ganiatáu o fewn ardaloedd diogelu mwynau lle na fydd datblygiad o'r fath yn cael effaith sylweddol ar hyfywedd datblygu mwynau ar gyfer y dyfodol, ond hefyd yn amodol ar feini prawf datblygu penodol gan gynnwys, cloddio blaenorol y mwyn. Hefyd, gall dim ond caniatáu datblygiad sydd ddim ynghlwm â mwynau os gellir dangos fod y datblygiad yn gorbwysu'r angen i warchod yr adnodd mwynau.
- 5.3 Mae'r agregau Categori 1 canlynol wedi cael eu diogelu ar y map cynigion;
- Tywod a Graean,
  - Calchfaen
  - Tywodfaen a Dolerit
- 5.4 Mae paragraff 14.2.1 o Bolisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 8: Ionawr 2016) yn datgan bod; "*Mae'n bwysig ein bod yn diogelu'n gallu i gael gafaer ar fwynau y gallai fod eu hangen ar gymdeithas. Nid yw hynny o reidrwydd yn golygu bod cloddio amdanynt yn dderbyniol, ond bod lleoliad ac ansawdd y mwynau yn hysbys, a bod y cyfyngiadau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â'u cloddio, a hefyd y potensial i gloddio am adnoddau mwynol cyn ymgymryd â mathau eraill o ddatblygu, wedi'u hystyried*". Mae Polisi 14.7.3 yn datgan ymhellach; "*Dylai ardaloedd i'w diogelu cael eu nodi ar fapiau cynigion a dylai polisiau ddiogelu adnoddau mwynau posibl rhag datblygiadau parhaol eraill a fyddai naill ai yn eu sterileiddio neu'n rhwystro gwaith cloddio, neu a allai rwystro gwaith o'r fath yn y dyfodol wrth i dechnoleg newid*".
- 5.5 Yn 2010 a 2012, fe gyhoeddwyd Llywodraeth Cymru ar y cyd gyda'r Arolwg Daearegol Prydain (BGS), Map Adnoddau Mwynau a Map Diogelu Agregau o Gymru (PCC039 & PCC040), er mwyn darparu Awdurdodau Cynllunio Lleol gyda'r sail dystiolaeth allweddol ar gyfer paratoi Cynllun Datblygu Lleol, i alluogi strategaethau cynlluniau i gydnabod pwysigrwydd adnoddau mwynau yn llawn ac er mwyn osgoi sterileiddio'n ddiangen. Mae'r mapiau a gyhoeddwyd yn cefnogi cynllunio mwynau cynaliadwy drwy ddarparu gwybodaeth gynhwysfawr, ddiweddaraf hygyrch ar leoliad a maint yr adnoddau mwynau ledled Cymru.
- 5.6 Mae astudiaeth y BGS yn cadarnhau maint adnoddau mwynol sydd; "*Wedi'u casglu yn bennaf o wybodaeth ddaearegol sydd ar gael, ac yn gyffredinol nid yw wedi cael eu gwerthuso gan ddrilio neu unrhyw samplu ar sail systematig arall*". Mae'r setiau data daearegol yn astudiaeth BGS wedi'u defnyddio i fapio dyddodion Calchfaen, Tywodfaen a Dolerit. Fodd bynnag, y prif fater yng

Ngwynedd yw bod y dyddodion tywod a graean a nodwyd yn adroddiad BGS yn sylweddol fwy, neu ddim yn cydberthyn â'r rhai a nodwyd fel blociau adnoddau yng nghyhoeddiad 2003, 'Adnoddau Tywod a Graean Gogledd Orllewin Cymru - Prifysgol Lerpwl' (DA027).

- 5.7 Mae dogfen BGS yn mynd ymlaen i ddweud, "*mae'r mapiau adnoddau cyhoeddedig hyn yn darparu'r wybodaeth sylfaenol er mwyn dechrau ar y broses o ddarlunio ardaloedd adnoddau mwynau*". Mae Adolygiad o'r RTS yn cydnabod fod Map Adnoddau Mwynau BGS wedi nodi amrywiaeth eang o waddodion sydd â photensial fel ffynonellau o agregau naturiol. Yng Ngogledd Orllewin Cymru fodd bynnag, ceir blociau adnoddau mwy penodol o bosib, sydd wedi'u nodi mewn astudiaethau manylach a gynhaliwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan Brifysgol Lerpwl yn 1988 a 2003 (DA027). Nid rhain o reidrwydd yw'r unig adnoddau gwerth chweil posibl, ond maent wedi'u hasesu'n fwyaf trylwyr.

**6. A ddylai'r adnabyddiaeth ofodol o'r 'Ardaloedd a Ffafir' (Polisi MWYN2 yn dilyn NF93) gael ei ddangos ar y Map Cynigion yn hytrach na'r Map Cyfyngiadau (gweler y mân newid i'r polisi hwnnw)?**

- 6.1 Cytuno, dylai'r 'Ardaloedd a Ffafir' a'r ardaloedd diogelu mwynau sydd wedi'u adnabod gael eu dangos ar y map cynigion. Cynnigir fod y newid hyn yn cael ei wneud trwy'r broses Newidiadau Materion sy'n Codi.

**7. A yw'r ymagwedd o amlygu Ardaloedd a Ffafir yn darparu modd effeithiol o fynd i'r afael â'r diffyg a amlygwyd o ran darparu agregau yn y Cynllun?**

- 7.1 Mae paragraff 14.7.10 Polisi Cynllunio Cymru 2016 yn datgan; "*Dylai polisi'au a chynigion mewn cynlluniau datblygu ar gyfer mwynau nad ydynt yn cynhyrchu ynni nodi'n glir lle dylid cloddio am fwynau o'r fath, neu lle bo hynny'n fwyaf tebygol o ddigwydd. Mae hynny'n rhoi elfen gref o sicrwydd i bawb. Dylid nodi'r lleoedd hynny'n glir ar fap cynigion.*" Lle mae gwybodaeth ddigon manwl yn bodoli, argymhellir y dylai'r dyraniadau yn ddelfrydol fod ar ffurf **Safleoedd Penodol**, h.y. "*lle mae adnoddau mwynau o bwys masnachol i'w cael, a lle bo unrhyw geisiadau cynllunio a gyflwynir ar gyfer y safleoedd hynny yn debygol o fod yn dderbyniol o safbwynt cynllunio*". Lle nad yw hynny'n bosibl, dylent o leiaf fod ar ffurf **Ardaloedd a Ffafir** sef; "*ardaloedd lle gwyddys bod adnoddau ac iddynt rywfaint o botensial masnachol, a lle byddai'n rhesymol disgwyl i ganiatâd cynllunio gael ei roi*", o fewn ardal lle dylai ymgeiswyr gael eu hannog i gyflwyno cynigion mwy penodol.
- 7.2 O ran anghenion dosraniad ar gyfer tywod a gro a cherrig mâl yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol (DA024), nid oes unrhyw gynigion penodol ar gyfer echdynnu mwynau wedi ei gyflwyno mewn ymateb i'r hysbysiad ar gyfer 'y galw am safleoedd', yn unol â'r gweithdrefnau statudol ar gyfer paratoi drafft adneuo o'r CDLI.
- 7.3 Yn hanesyddol, mae'r ardal rhwng Penygroes a Bryncir, yng Ngwynedd, wedi profi i fod yn brif ffynhonnell o dywod a graean ar gyfer isranbarth Gogledd-orllewin Cymru ac ar hyn o bryd, yn cyflenwi rhan fwyaf o'r deunydd o un chwarel yn Graianog ers cau gwaith Bryncir yn 2007. Mae'r caniatâd mwy diweddar a roddwyd yn Llecheiddior Uchaf yn 2013 yn cynnwys tua 600,000 o dunelli o fwynau lle bwriedir cario deunyddiau i gyn cyfleuster prosesu ym Mryncir. Mae dau ganiatâd cynllunio ychwanegol Segur yn bodoli ar gyfer echdynnu tywod a graean yng Nghae Efa Lwyd a Tan y Bryn i'r de ac i'r gorllewin o Benygroes, lle mae'r safle Cae Efa Lwyd yn destun cais ROMP sydd wedi'i ddileu ar gyfer penderfynu ar amodau.
- 7.4 Mae adroddiad 'Adnodd Tywod a Graean Gogledd Orllewin Cymru' 2003 (DA027) yn nodi 14 o flociau adnodd o bwys, wedi'u lleoli mewn sribed llinellol naill ochr i'r A487 rhwng Penygroes a Bryncir, ac yn eithaf digyfyngiad o ran dynodiadau amgylcheddol a thirwedd. Yn allweddol, mae'r rhan fwyaf o'r blociau, ac eithrio A2 Cae Efa Lwyd & A3 Tan y Bryn, wedi'u nodi yn flaenorol fel 'Ardaloedd Ymgynghori ar Fwynau' yng Nghynllun Datblygu Unedol Gwynedd. Yn yr un modd, mae ardaloedd a ffafir ar gyfer cerrig mâl i fodloni anghenion dosrannu Ynys Môn wedi eu lleoli gerllaw, neu fel estyniadau i fwyngloddiau presennol ac/neu gronfeydd mwynau.

- 7.5 O ystyried sefyllfa lle nad oedd y Cynghorau wedi derbyn digon o wybodaeth i ddyrannu safleoedd penodol ar gyfer tywod a graean a cherrig mâl, mae'r ardaloedd a ffafrir a nodwyd yn ardal y cynllun yn amlinellu gorddarpariaeth o fwynau o tua 20 miliwn o dunelli ar gyfer tywod a graean ac amcangyfrif o 33 miliwn tunnelli ar gyfer cerrig mâl (ardal a ddyrannwyd x dyfnder cyfartalog o x 2 (dwysedd cyfartalog o gerrig tunnelli / m<sup>3</sup> gwaith).

**8. A yw polisi MWYN6 yn ddiangen o fanwl yng nghyd-destun clustogfeydd, yn enwedig clustogfeydd tybiannol?**

- 8.1 Cytunir gall y polisi fod yn ddiangen o ragnodol a gellir diwygio'r geirfa drwy'r broses Newidiadau Materion sy'n Codi i ddarllen fel a chanlyn:-

“POLISI MWYN6: CYLCHFHEYDD RHAGOD SAFLEOEDD MWYNAU

Gwrthodir ceisiadau cynllunio i gloddio mwynau o fewn cylchfeydd rhagod a nodir ar y Map Cynigion oni bai y gellir darparu cylchfeydd rhagod newydd sy'n adlewyrchu'r isafswm pellter y cyfeirir ato yn NCTM 1: Agregau. ~~Bydd cylchfeydd rhagod tybiannol yn cael eu cymhwyso i bob cais cynllunio newydd ar gyfer gweithio mwynau yn unol â'r lleiafswm pellter y cyfeirir ato yn NCTM 1: Agregau, ac mewn achosion ble na all cylchfeydd rhagod tybiannol sicrhau'r lleiafswm pellter angenrheidiol, bydd y datblygiad yn cael ei wrthod.~~”

**9. A oes cyfiawnhad dros hepgor ardal diogelu mwynau i gynnwys maes glo Caernarfon?**

- 9.1 O ran adnoddau glo yng Ngwynedd a Môn, mae tri ardal penodol wedi'u nodi ar setiau ddata daearegol BGS sydd hefyd yn cael eu cyfeirio atynt ar fap adnoddau yr Awdurdod Glo, dyddiedig Mehefin 2014. Fodd bynnag, ymddengys fod data daearegol neu twll turio dim ond ar gael ar gyfer y maes glo mwyaf ym Malltraeth/Pentre Berw. Ar sail y wybodaeth sydd ar gael i'r awdurdod cynllunio lleol, mae'r meysydd glo a nodir yng Ngwynedd ac Ynys Môn yn cynnwys adnoddau eilaidd. Fodd bynnag, deallir fod mapio adnoddau glo arwyneb yn seliedig ar y wybodaeth orau sydd ar gael i'r Awdurdod Glo a BGS lle mae adnoddau glo primaidd, eilaidd a trydyddol wedi'u cyfuno i greu ardal adnodd glo arwyneb sengl clir. Mae'r cyhoeddiad BGS/Llywodraeth Cymru, 'Adnoddau Glo Brig yng Nghymru' (PCC039 & PCC040), yn cadarnhau fod creigiau pellach ar ddwy ochr i'r Afon Menai ger Caernarfon, er y honnir eu bod yn cynnwys glo tenau yn lleol ond ychydig a wyddys mewn unrhyw fanylder. Felly, nid oes unrhyw ddata daearegol sylweddol i gadarnhau bodolaeth adnoddau glo primaidd, eilaidd neu drydyddol o fewn y maes glo Caernarfon.

- 9.2 Mae'r wybodaeth ddaearegol ar faes glo Ynys Môn wedi'i grynhoi yn Atodiad A o MTAN2 ac ymddengys ei fod yn dangos fod y potensial ar gyfer cloddio tanddaearol glo brig neu ar raddfa fawr yn yr ardal hon yn isel, gan y byddai hyn yn cael ei gyfyngu gan maint y maes glo a thrwch isel o lo.

- 9.3 Fe gyflwynwyd ymholiad i Adran Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag unrhyw arolygon geodechnegol a baratowyd ar gyfer y ffordd osgoi Bontnewydd arfaethedig (h.y. maes glo Caernarfon). Mewn ymateb, cadarnhawyd fod cyfres o dyllau turio wedi ei wneud yng nghyffiniau'r adnodd glo lle mae llinell y llwybr a ddiogelir yn croesi, ond ar y pryd ysgrifennwyd yr ymateb hwn, nid oedd cofnodion y tyllau turio wedi cael eu cyhoeddi i'w harchwilio. Fodd bynnag, mae crynodeb wedi cael ei ddarparu gan Parsons Brinkerhoff Cyf ar ran Llywodraeth Cymru sy'n darllen;

*“The only solid geology encountered in the immediate vicinity of the area encircled in red was the ‘Twt Hill Granite’ with associated amalgamated deposits interpreted as the ‘Padarn Tuff’. This is located to the north west of the encircled perimeter – No coal! Just very hard rock!”*

- 9.4 Gan ystyried y wybodaeth geotechnegol hanesyddol a diweddar mae'n parhau i fod mai ychydig iawn a wyddys am adnodd glo y tu allan i Gaernarfon, dim ond y byddai'n ymddangos eu bod yn gorwedd gyda haen sylweddol o gwenithfaen galed iawn ar y graddau ogleddol sy'n gyson â'r

wybodaeth a gynhwysir yng nghyhoeddiad 2010 BGS, Map Adnoddau 'Mwynau Cymru (PCC039). Mae'n ymddangos bod yr adnodd glo gyfan yn gorwedd oddi tan; 'Creigiau igneaidd eraill gan gynnwys basaltau, felsites, gabbros, twffau a gwenithfaen', ac mae'r potensial ar gyfer unrhyw echdynnu glo wedi'i gyfyngu gan y ddaear gorchuddiol ac mae'r ymelwad masnachol felly yn ymddangos yn isel.

**10. A yw Strategaeth Gwastraff y Cynllun yn gyson â pholisi cenedlaethol yn benodol – Polisi Cynllunio Cymru a'r diweddariad i Nodyn Canllaw Technegol 21: Gwastraff (2014)?**

- 10.1 Ydi. Mae'r cynllun yn adlewyrchu polisi gwastraff cenedlaethol yn cynnwys Strategaeth Wastraff Cenedlaethol Llywodraeth Cymru Tuag at Ddyfodol Diwastraff - Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned 2010 (PCC07), Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 8: Ionawr 2016), Nodyn Cyngor Technegol (TAN 21: Gwastraff 2014), Cynllun y Sector Casgliadau Seilwaith a Marchnadoedd (CIMS) (2012) (PCC45) yn ogystal â gofynion y Gyfarwydddeb Fframwaith Gwastraff. Mae Polisi Strategol PS18 a Pholisi GWA1 yn cyflawni amcanion y Cynllun CIMS i wneud darpariaeth ar gyfer rheoli gwastraff a seilwaith ailgylchu ac i adnabod y math o gyfleuster rheoli gwastraff a lleoliad lle fydd defnyddiau o'r fath yn debygol o fod yn dderbyniol.
- 10.2 Mae'r strategaeth yn cydymffurfio hefo paragraffau 12.6.1 i 12.6.3, o Bolisi Cynllunio Cymru.

**11. Ydi sail tystiolaeth y Cynllun yn cyflwyno gwybodaeth gyfoes a manwl o'r deilliannau gwastraff cyfredol a disgwylidig er mwyn dangos fod Strategaeth Gwastraff y Cynllun yn ddigonol ac yn un y gellir ei weithredu?**

- 11.1 Ydi. Ystyriwyd fod y papur testun Gwastraff (PT023) y CDLI dyddiedig Tachwedd 2013 yw'r wybodaeth leol gorau ar gael i Fôn a Gwynedd sydd yn seiliedig ar wybodaeth mwyaf cyfredol sydd ar gael ac yn seiliedig ar y strategaeth Tuag at Ddyfodol Diwastraff Cynllun y Sector Casgliadau Seilwaith a Marchnadoedd'.

**12. A yw polisi GWA3 yn ymateb priodol i storio a thrin gwastraff ymbelydrol?**

- 12.1 Ydi. Yn ogystal â darparu'r isadeiledd ar gyfer ymdrin â gwastraff ymbelydrol isel ac isel iawn a gynhyrchir wrth datgomisiynu'r orsaf ynni niwclear presennol yn yr Wylfa a datblygiad posib gorsaf ynni niwclear newydd, mae yna fusnesau, sefydliadau ymchwil a chyfleusterau gofal iechyd o fewn ardal y cynllun sy'n cynhyrchu gwastraff ymbelydrol isel ac isel iawn. Yn amodol ar feini prawf datblygu penodol, bydd cyfleusterau ar gyfer triniaeth ar y safle, storio neu waredu gwastraff ymbelydrol lefel isel yn cael ei ganiatáu yn unol â pholisi cenedlaethol i ddelio â gwastraff o'r fath cyn belled i fyny'r hierarchaeth gwastraff ac mor agos at y ffynhonnell ag y bo modd.

**13. A yw'r Cynllun yn darparu dulliau eglur a phriodol ar gyfer gweithredu a monitro'r Strategaethau Mwynau a Gwastraff?**

- 13.1 Bydd y cynllun yn cael ei ategu gan fframwaith a fydd yn cael eu defnyddio i fonitro gweithredu polisïau a chynigion yn y cynllun. Bydd hyn yn bwydo'n uniongyrchol mewn i'r Adroddiad Monitro Blyneddol ac yn ei dro, yn cael ei defnyddio i lywio unrhyw adolygiadau o'r Cynllun ar gyfer y dyfodol. Bydd y Cynghorau'n sicrhau fod y Fframwaith Monitro'n darparu'r mecanwaith gorau posibl i fonitro a chyflwyno amcanion polisi cynllunio cenedlaethol, lleol presennol ac arfaethedig. Yn dilyn cyhoeddi Cynllun y Sector Casgliadau Seilwaith a Marchnadoedd, TAN 21 diwygiedig, mae trefniadau monitro a data ar gyfer sgil-gynhyrchion gwastraff yn cael ei gasglu'n rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru. Mae adroddiad monitro gwastraff rhanbarthol diweddar Ogledd Cymru yn cael ei pharatoi ar hyn o bryd mewn cysylltiad â Chyfoeth Naturiol Cymru a rhagwelir iddo gael ei gyhoeddi rywbryd yn ystod hydref 2016.